# Ailddechrau ein gweithgarwch arferol: Ymweliadau monitro

Yn nhymor yr hydref 2021, ailddechreuom fonitro ysgolion ac UCDau mewn categori statudol (mesurau arbennig neu welliant sylweddol). Buom mewn cysylltiad â'r darparwyr hyn yn rheolaidd yn ystod y pandemig drwy'r AEM Bugeiliol (AEMB) a benodwyd i bob un ohonynt. Mae hyn wedi ein galluogi i ddilyn hynt a helynt yr heriau cyfnewidiol roedd y darparwyr hyn yn eu hwynebu. Mae hefyd – ochr yn ochr â'n cysylltiad rheolaidd ag awdurdodau lleol – wedi ein helpu i ddeall pa bryd yr oedd yn ddiogel ac yn briodol cynnal ymweliadau bugeiliol anfarnol cyn ailddechrau monitro ffurfiol.

Rydym yn ymweld â phob darparwr yn y categori mesurau arbennig yn ystod tymor yr hydref. Byddwn yn ymweld â'r rhai sydd yn y categori gwelliant sylweddol yn ystod 2021-22, fel y bo'n briodol.

Wrth gynllunio a chynnal ymweliadau monitro, rydym wedi sicrhau:

- Bod yr ymweliad cyntaf yn cael ei arwain gan yr AEMB, sydd â dealltwriaeth dda o gyd-destun penodol y darparwr drwy ei gysylltiad rheolaidd â'r pennaeth
- Bod yr AEMB a'r pennaeth yn cytuno ar brotocolau ar gyfer gweithgareddau fel arsylwi gwersi, sy'n galluogi'r tîm i gael darlun clir o addysgu a dysgu, gan gadw disgyblion, staff ac arolygwyr yn ddiogel
- Bod y tîm yn hyblyg wrth ymateb i unrhyw newidiadau i amgylchiadau'r ysgol, er enghraifft absenoldeb disgyblion neu staff, drwy newid yr amserlen weithgareddau yn ôl yr angen
- Bod cyd-destun y darparwr yn cael ei ystyried yn llawn wrth werthuso cynnydd, lles a phresenoldeb disgyblion – wrth wneud hynny, bydd arolygwyr yn dilyn yr egwyddorion sydd wedi'u hamlinellu yn Barnu Cynnydd Digonol yn 2021

Fel bob tro gydag arolygiadau ac ymweliadau monitro, ni fydd yn ofynnol i ysgolion gyflwyno unrhyw ddogfennau, heblaw am amlinelliad cryno o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion, y bydd y pennaeth yn ei roi i'r arolygydd cofnodol. Mae ein disgwyliadau o ran dogfennau a thystiolaeth arall wedi'u hamlinellu yn Lleihau Baich Gwaith, a gytunwyd â chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, CGA, undebau addysgu a Llywodraeth Cymru.